# Adroddiad Blynyddol

*   *   *

# Cyngor Cymuned Bodedern

*   *   *

## 2024 - 2025



# Cynnwys


1) Gair gan y Cadeirydd
2) Cyflwyniad
3) Aelodaeth y Cyngor
4) Manylion Cyswllt
5) Cynrychiolaeth ar Wahanol Bwyllgorau
6) Cyngor Sir Ynys Môn
7) Gwefan y Cyngor
8) Sefyllfa Ariannol y Cyngor 2024 - 2025
9) Lwfansau Aelodau 2024 - 2025
10) Archwiliadau Mewnol ac Allanol
11) Rhoddion
12) Hyfforddiant
13) Ceisiadau Cynllunio
14) Mynwent y Plwyf
15) Parc Chwarae
16) Llwybrau Cyhoeddus
17) Cyfarfodydd
18) Sul y Cofio
19) Ystadegau
20) Hysbysfwrdd
21) Blaenoriaethau y Flwyddyn 2025 - 2026

# Gair gan y Cadeirydd

Braint oedd cael bod yn Gadeirydd yn ystod y flwyddyn diwethaf 2024-2025 a diolch i chi am ymddiried ynof unwaith eto.

Bu yn flwyddyn heriol iawn inni ymhob ffordd ond drwy weithio fel tim llwyddiannus rydym wedi goresgyn a symud y Cyngor yn ei blaen.

Gwelwyd newidiadau mewn aelodaeth a Chlerc yn ystod 2024-2025. Diwedd Mawrth 2024 penodwyd Mr Dylan Hughes fel Clerc a Swyddog Ariannol y Cyngor ac mae wedi bod yn gaffaeliad mawr i'r Cyngor allu symud ymlaen a chwblhau ei dylestwyddau. Hoffwn ddiolch iddo am ei ymroddiad a'i ddyfalbarhad i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu'n effeithiol.

Ymddiswyddodd Mr John Barnett a phenodwyd Ms Michelle Trowel yn ei le. Er mai cyfnod byr y bu John gyda ni hoffwn ddiolch iddo am ei waith ar y Cyngor. Llenwyd y sedd wag oedd gennym gan Mr Glyn Davies. Rwy'n siwr y bydd y ddau newydd yn gaffaeliad mawr i'r Cyngor. Am y tro cyntaf ers blynyddoedd mae aelodaeth y Cyngor yn 11. Y rhif disgwyliedig.

Llwyddwyd i gwblhau yr holl gyfrifon oedd eu hangen ar gyfer yr archwiliadau mewnol ac allanol.

Mae blaenoriaethau y flwyddyn i gyd wedi cael sylw gyda gwelliant i'r wefan, sydd bellach yn fwy gweithredol. Mae'r Cyngor wedi creu gwell cysylltiad efo'r ddwy ysgol â'r gymuned ac mae'r asedau i gyd wedi cael neu yn cael sylw.

Hoffwn ddiolch i chi gynghorwyr am eich gwaith a'ch cefnogaeth er lles y gymuned yn ystod y flwyddyn ac i'r ddau gynghorydd sir am fynychu ein cyfarfodydd a chynnig sylwadau pan fo angen.

O edrych ymlaen i'r dyfodol mae gennym gynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae gwella ein cysylltiad â'r gymuned yn holl bwysig, gwella ein asedau ac adeiladu ar y llwyddiannau a ddechreuwyd arnynt llynedd.

## 2) Cyflwyniad

Cyflwynir Adroddiad Blynyddol Cyngor Cymuned Bodedern ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024 - 2025.

Mae'r adroddiad wedi ei baratoi i ddiwallu gofyniad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 er mwyn sicrhau llywodraethu effeithiol a rheolaeth gadarn o arian cyhoeddus. Bwriad yr adroddiad yw creu ymwybyddiaeth y cyhoedd o waith y Cyngor Cymuned ym Modedern.



### 3) Aelodaeth y Cyngor Cymuned

**Roedd 11 aelod ac un Clerc / Swyddog Ariannol Cyfrifol ar y Cyngor yn ystod Blwyddyn Ariannol 2024-2025**

**Cadeirydd**—Miss Jane Ann Roberts

**Is-Gadeirydd**—Dr Edward Thomas Jones

Mr Glyn Davies | Ms Joanne Ferry | Mrs Bethan Hughes

Mrs Linda Jones | Mr Osian Jones | Mr Richard Jones

Mr Victor Owen | Mrs Ann Postle | Ms Michelle Trowell

**Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol**—Mr Dylan Emlyn Hughes

### 4. Manylion Cyswllt y Cyngor

**Clerc y Cyngor** (Swyddog Gweinyddol a Swyddog Ariannol Cyfrifol y Cyngor)

**Dylan Emlyn Hughes, 6 Plas Main, Bodedern, Caergybi, Ynys Môn LL65 3TN**

Rhif Ffôn **07398221406**

E-Bost **bodederncyngorcymuned@gmail.com**

Gwefan y Cyngor **www.cyngorcymunedbodedern.co.uk**

### 5. Cynrychiolaeth ar Wahanol Bwyllgorau

**Un Llais Cymru**—Osian Jones ac Ann Postle

**Pencampwr Iaith Gymraeg**—Richard Jones

**Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned**—Edward Jones

**Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Bodedern**—Edward Jones

**Pwyllgor Tywyn Trewan**—Linda Jones

**Cynghrair Bro'r Llynnoedd**—Ann Roberts

**Neuadd Bentref**—Ann Roberts

**Pwyllgor Staffio**—Ann Roberts, Edward Jones, Dylan Hughes

**Panel Ariannol**—Ann Roberts, Edward Jones, Bethan Hughes, Osian Jones, Dylan Hughes

## 6. Cyngor Sir Ynys Môn

Mae'r Cyngor Cymuned yn cyd-weithio yn agos gyda'r ddau Gynghorydd Sir - Gwilym Jones a Ken Taylor ac mae'r ddau yn mynychu y cyfarfodydd yn fisol.

## 7. Gwefan y Cyngor

**Gwefan - wwwcyngorcymunedbodedern.co.uk**

Datblygwyd y wefan yn ystod y flwyddyn. Ychwanegwyd nifer o luniau a phenawdau i'r dudalen flaen megis dyddiadau ein cyfarfodydd, gweithgareddau, adroddiad blynyddol, mynwent y plwyf ac mae y rhan fwyaf o'i chynnwys yn ddwyieithog. Rhoddir yr agenda a'r cofnodion arni yn rheolaidd. Mae datganiadau cyfrifyddu 2019 - 2024 bellach wedi eu cynnwys. Proses ddatblygol yw'r wefan sy'n rhoi darlun o waith y Cyngor.

## 8) Sefyllfa Ariannol y Cyngor 2024 - 2025

| **Derbyniadau** | |
|---|---|
| Praesept | £14,000 |
| Y Fynwent | £5,760 |
| Ad-daliad TAW | £2,005.80 |
| Trosglwyddo arian o Gronfa Elusennau | £450 |
| Cyfanswm | **£22,215.80** |
| | |
| **Taliadau** | |
| Y Fynwent | £8,477.13 |
| Parc Chwarae | £2,764.47 |
| Cyflog y Clerc | £4.713.02 |
| Rhoddion | £600 |
| SDS | £769.50 |
| Amrywiol | £4,181.97 |
| Cyfanswm | **£21,506.09** |
| | |
| Balansau ar 01/04/2024 | **£38,691.09** |
| Balansau ar 31/03/2025 | **£39,400.80** |
| | |

Praesept am y flwyddyn 2024 - 2025 oedd £14,000.

## 9. Lwfansau Aelodau 2024 - 2025

Yn unol ag Adran 151 Mesur Llywodraeth Leol 2011 rhaid i Gynghorau Cymuned gyhoeddi o fewn ardal ei hawdurdod y gydnabyddiaeth ariannol sydd wedi'i derbyn gan eu haelodau am y flwyddyn ariannol blaenorol. Mae'r wybodaeth yn cael ei hanfon at Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol erbyn 30ain Medi bob blwyddyn.

* * * * * * * * *

**Nid oes neb ar Gyngor Cymuned Bodedern wedi hawlio lwfans yn ystod y flwyddyn ariannol 2024 - 2025.**

## 10. Archwiliadau Mewnol ac Allanol

Cafwyd archwiliad mewnol o gyfrifon y Cyngor rhwng 2019 - 2024 gan Mr Alun Foulkes. Derbyniwyd nifer o awgrymiadau ganddo ar sut i wella gweithdrefnau y Cyngor ac rydym wedi gweithredu arnynt yn ystod y flwyddyn.

Roedd yr archwiliad allanol yn cael ei wneud gan Swyddfa Archwilio Cymru ac unwaith eto derbyniwyd awgrymiadau ar beth i wneud i wella'r Cyngor.

## 11. Rhoddion



Ambiwlans Awyr Cymru

£350



Y Rhwyd

Papur Bro Y Rhwyd

£250

## 12. Hyfforddiant

Mae Cyngor Cymuned Bodedern yn aelod o Un Llais Cymru ac wedi derbyn cyngor ganddynt ar sawl achlysur.

Un Llais Cymru / One Voice Wales

Gan fod Un Llais Cymru yn darparu hyfforddiant i gynghorwyr penderfynodd y Cyngor dalu am ddau hyfforddiant i bob aelod yn ystod y flwyddyn. Bu'r Cadeirydd ar hyfforddiant Cod Ymddygiad a Sgiliau Cadeirio a Mrs Linda Jones ar hyfforddiant Cod Ymddygiad.

Nid yw'n orfodol mynychu y gwahanol hyfforddiant gan Un Llais Cymru.

## 13. Ceisiadau Cynllunio

Mae'n rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn ein hysbysu o'r holl geisiadau cynllunio o fewn y plwyf. Ystyrir y ceisiadau yn ofalus gan y Cyngor Cymuned a rhoddir sylwadau priodol yn ôl yr angen. Cyflwynir y sylwadau hyn gan Glerc y Cyngor i Adran Gynllunio y Cyngor Sir.

Nifer y ceisiadau cynllunio a ddaeth gerbron y Cyngor yn ystod y flwyddyn oedd **8**.

## 14. Mynwent y Plwyf

Gwnaethpwyd cryn waith yn y fynwent yn ystod y flwyddyn. Bu Darren Boot o Gwmni DU Construction a Simon o Gwmni GMS yn clirio ffrynt y fynwent gan lefelu y twmpath pridd oedd ar y ddwy ochr, a hynny yn wirfoddol. Bu Trefor Jones, Saer Maen, yn trwsio y tyllau mawr oedd yn y waliau, un ochr



Treangharad ac un ochr Ty'n y Graig. Cafodd y waliau a'r llwybrau eu clirio a'u tacluso gan Gwmni RPG. Gosodwyd dwy fainc newydd. Un er cof gan deulu y diweddar Agnes Rowlands (gan fod yr hen un wedi torri) a'r llall yn un newydd gan y Cyngor. Gosodwyd hi gan Gwmni Thomas Groundswork. Mae Leigh Thomas yn parhau i dorri glaswellt yn y fynwent bob bythefnos o fis Ebriill i Hydref.



Gosodwyd hysbysfwrdd ac arwydd dim cŵn tu allan i'r fynwent.

Gwnaethpwyd cais i Beddau Rhyfel Lluoedd y Gymanwlad am arwydd i'w osod tu allan i'r fynwent gan fod yna 6 bedd sy'n cael sylw gan wirfoddolwyr y mudiad.

## 15. Parc Chwarae

Cafwyd archwiliad blynyddol o'r Parc gan Gwmni ROSPA a derbyniwyd adroddiad manwl o gyflwr yr offer. Penderfynwyd ein bod am brynu offer newydd ynghyd â newid llawr o dan ambell offer. Roedd 2 siglen wedi torri a byddant yn cael eu trwsio / newid yn y man.



Y Cyngor sydd yn gyfrifol am dorri glaswellt yn y Parc a thalu am yr yswiriant anghenrheidiol.



Bu disgyblion Bl7 o Ysgol Uwchradd Bodedern ynghyd â'r dirprwy â chymorthydd yn paentio yr offer yn y Parc.

Trafodaethau wedi cychwyn gyda Chlwb Ffermwyr Ieuainc Bodedern gyda'r bwriad y byddant yn gallu gwirfoddoli i gynorthwyo efo casglu sbwriel yno.

## 16. Llwybrau Cyhoeddus

Doedd dim un angen sylw yn ystod y flwyddyn.

## 17. Cyfarfodydd

Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor ar y pedwerydd nos Lun o bob mis ac eithro Awst a Rhagfyr a hynny yn Lolfa Gymunedol Bro'r Ysgol.

Cymraeg yw iaith weinyddol y Cyngor, felly, cynhelir y cyfarfodydd yn Gymraeg.

Bydd y Cyfarfod Blynyddol yn cael ei gynnal ym mis Mai pryd y dewisir Cadeirydd ac Is-Gadeirydd ynghyd ac aelodau ar wahanol bwyllgorau.

Adolygir Dogfennau a Pholisiau'r Cyngor e.e. Cod Ymddygiad, Rheoliadau Ariannol, Rheoliadau Sefydlog, Polisi Lwfansau Cynghorwyr, Asesiad Risg , Polisi Iaith a Polisi Cwynion. Mae'r Polisi Bioamrywiaeth yn cael sylw ar hyn o bryd.

Cedwir cofrestr o fuddiannau pob aelod. Datgelir unrhyw ddiddordeb o fuddiannau am eitemau i'w trafod ar gychwyn bob cyfarfod a byddant yn cael eu nodi yn y cofnodion.

Yn ystod y flwyddyn bu disgyblion o Ysgol Gynradd Bodedern yn cyflwyno eu Prosiect Gwybodaeth am Hanes Ein Pentref. Diddorol oedd gwrando ar gyflwyniad hyderus y disgyblion. Gobeithir eu cynorthwyo gyda'u gwaith yn y pentref.

Bu Helen Williams a Barry o Gwmni Clwyd Alyn yn rhoi diweddariad inni o stad Newydd Treangharad.

Cafwyd ymweliad gan ddwy PCSO a diweddariad o beth sy'n digwydd yn y pentref.

## 18. Sul y Cofio

Cynhelir gwasanaeth Sul y Cofio yn Neuadd Goffa Bodedern bob mis Tachwedd a bydd torch o bapi yn cael ei chyflwyno ar ran y Cyngor gan y Cadeirydd.



## 19. Ystadegau 2024 - 2025

Nifer y cyfarfodydd llawn o'r Cyngor **10**

Nifer y Cyrsiau a fynychwyd **3**

Ymddiswyddiadau yn ystod y flwyddyn **1**

Aelodau Newydd ar y Cyngor **2**

Nifer y cwynion a dderbyniwyd **0**

Nifer y claddedigaethau yn y fynwent **11**

## 20. Elusennau

Eleni bu'n rhaid inni ail gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau ac ail agor y cyfrif banc gan ei fod yn segur ers blynyddoedd.

Bu'n rhaid newid mandad efo cronfeydd y CCLA fel ein bod yn gallu derbyn y llog ar yr arian a fuddsoddir.

Dosbarthwyd £280 i drigolion yr ardal Nadolig 2024.

Anfonwyd manylion blynyddol yr Elusennau i'r Comisiwn Elusennau. Rhaid gwneud hyn yn flynyddol.

Yr Elusennau cyfredol yw David Williams, R. Gwyn, S Prydderch, Edmund Griffith a Bodedern Charities.

## 21. Hysbysfwrdd



Prynwyd dau hysbysfwrdd ar gyfer yr ardal ac fe'I lleolir wrth y fynwent a Plas Main.

## 22. Blaenoriaethau y Flwyddyn 2025 - 2026

- Gwella'r Parc Chwarae drwy brynu offer newydd
- Datblygu gwefan y Cyngor
- Parhau i ddatblygu cysylltiad â'r gymuned
- Adolygu, diweddaru a mabwysiadu polisiau newydd
- Datblygu a hybu bioamrywiaeth yn yr ardal yn unol â Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016
- Cynnal archwiliad o'r fynwent a'r Parc Chwarae
- Gwella cysgodfan bws y pentref
- Parhau efo'r cysylltiad gyda'r Clwb Ffermwyr Ieuainc a'r ysgolion
- Tacluso y llecyn ger Plas Main lle oedd yr hen flwch teliffon